

Criw Celf: Gwybodaeth Brosiect

Gwybodaeth Gyffredinol am y Prosiect

Prosiect y Cyngor Celfyddydau Cenedlaethol yw Criw Celf a gyflwynir ar draws Cymru.

Yn Ysgol Gelf Caerfyrddin yng Ngholeg Sir Gâr rydym yn cyflwyno'r Prosiectau Criw Celf Canlynol: Portffolio a Chodi'r Bar.

Anelir **Portffolio** at ddysgwyr ym mlynnyddoedd ysgol 10 ac 11 (TGAU)

Anelir **Codi'r Bar** at ddysgwyr ym mlynnyddoedd ysgol 12 ac 13 (Lefel UG a Safon Uwch)

Mae Ysgol Gelf Caerfyrddin wedi bod yn ddigon ffodus i gyflwyno'r prosiect am y naw mlynedd ddiwethaf, gan weithio'n agos gydag ysgolion, colegau, cymunedau addysg yn y cartref, awdurdodau lleol, diwydiannau a sefydliadau creadigol.

Mae'r prosiectau wedi bod yn llwyddiant ysgubol ac rydym yn falch ein bod wedi gallu cael effaith gadarnhaol ar ddilyniant a theithiau creadigol a wnaed gan gannoedd o artistiaid ifanc yng Ngorllewin Cymru.

Fel rhan o Portffolio a Chodi'r Bar hefyd gwahoddir dysgwyr i:

- Fynychu Pum Dosbarth Meistr yn Ysgol Gelf Caerfyrddin, Campws Heol Ffynnon Job
- Cymryd rhan mewn ymweliad addysgol
- Arddangos gwaith mewn arddangosfa gyhoeddus ddiwedd y flwyddyn

Cynllun Llinell Amser y Prosiect

Dydd Llun 17eg Awst - Dydd Gwener 25ain Medi 2020

Bydd ceisiadau ar gael ar wefan y coleg o ddydd Llun 17eg Awst 2020 ymlaen.

Bydd angen cyflwyno ceisiadau erbyn 4.30pm ar ddydd Gwener 25ain Medi 2020.

Dydd Llun 28ain - Dydd Mercher 30ain Medi 2020

Bydd ceisiadau'n cael eu prosesu. Noder, nifer gyfyngedig o leoedd sydd ar gael. Ni fyddwn yn gallu cynnig lle i bob ymgeisydd.

Dydd Iau 1af - Dydd Gwener 2il Hydref 2020

Bydd y coleg yn cysylltu ag ymgeiswyr.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn gwybodaeth lawn ynghylch cofrestru a'r cwrs.

Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn derbyn gwybodaeth arall am ddsbarth meistr rhagflas.

Dydd Sadwrn 10fed Hydref 2020

Gwahoddir ymgeiswyr llwyddiannus i gofrestru yn Ysgol Gelf Caerfyrddin, Coleg Sir Gâr, Campws Heol Ffynnon Job, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HY

Tachwedd 2020 - Mawrth 2021

Portffolio - bydd un gweithdy'r mis yn cael ei gyflwyno ar nos Iau rhwng 5-8pm yn Ysgol Gelf Caerfyrddin. Dyddiadau a manylion y gweithdai i'w cadarnhau.

Codi'r Bar - bydd un gweithdy'r mis yn cael ei gyflwyno ar nos Fawrth rhwng 5-8pm yn Ysgol Gelf Caerfyrddin. Dyddiadau a manylion y gweithdai i'w cadarnhau.

Dyddiadau a manylion yr ymweliad addysgol a'r arddangosfa i'w cadarnhau.

Nodwch, gall y dyddiadau hyn newid.

Cost y Prosiect

Mae ffi o £40 yn gysylltiedig â phrosiectau Criw Celf, Portffolio a Chodi'r Bar.

Mae'r ffi o £40 yn cwmpasu'r gost o gofrestru, pum dosbarth meistr, un ymweliad addysgol ac arddangosfa diwedd y flwyddyn. Yn ychwanegol at hyn bydd dysgwyr hefyd yn derbyn pecyn celf, portffolio, cyngor ac arweiniad ynghylch dilyniant a thystysgrifau cyflawniad.

Mae'r £40 yn daladwy wrth gofrestru.

Ceisiadau 2020/21

Bydd angen i ddysgwyr lenwi a chyflwyno ffurflen gais ar-lein.

Mae angen e-bostio / rhannu ceisiadau wedi'u cwblhau yn ddigidol i

saron.jones-hughes@colegsirgar.ac.uk erbyn 4.30pm ddydd Gwener 25 Medi 2020

Cyswllt

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â Saron Jones-Hughes (Rheolwr y Prosiect)

saron.jones-hughes@colegsirgar.ac.uk